OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2002 Rhif 1796 (Cy.171)

CEFN GWLAD, CYMRU

Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Dros Dro a Therfynol) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud - -	*9 Gorffennaf 2002*
Yn dod i rym - -	*1 Awst 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 11 a 44 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Dros Dro a Therfynol) (Cymru) 2002 ac maent yn dod i rym ar 1 Awst 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn:

ystyr "apêl" ("*appeal*") yw apêl i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 6 o'r Ddeddf gan berson sydd â buddiant mewn tir yn erbyn dangos y tir hwnnw ar fap dros dro fel tir comin cofrestredig neu fel tir agored.

ystyr "apelydd" ("*appellant*") yw person sy'n dwyn apêl a, lle bo dau neu fwy o bobl yn dwyn apêl ar y cyd, mae'n cyfeirio at bawb ohonynt ar y cyd;

ystyr "awdurdod lleol perthnasol" ("*relevant local authority*"), mewn perthynas â map dros dro neu fap terfynol (fel y bo angen) yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol y mae ei ardal yn cynnwys ardal a gynhywsir yn y map hwnnw;

ystyr "awdurdod Parc Cendlaethol perthnasol" ("*relevant National Park authority*"), mewn perthynas â map dros dro neu fap terfynol (fel y bo angen) yw awdurod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol y mae ei ardal yn cynnwys ardal a gynhwysir yn y map hwnnw;

ystyr "cyfathrebu electronig" ("*electronic communication*") yw cyfathrebu a drosglwyddir (naill ai o un person i'r llall, o un ddyfais i'r llall neu o berson i ddyfais neu i'r gwrthwyneb)

(**1**) 2000 p.37. Mae adran 45(1) yn diffinio "regulations" yn Rhan I o'r Ddeddf (mewn perthynas â Chymru) fel rheoliadau a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

drwy system delathrebu (fel a ddiffinir yn Neddf Telathrebu 1984(**2**)) neu drwy ddulliau eraill ond ar ffurf electronig;

ystyr "cyfnod apêl" ("*appeal period*"), mewn perthynas â map dros dro, yw'r cyfnod a gyfeirir ato yn rheoliad 4(3)(ch);

ystyr y "cyfnod dros dro" ("*provisonal period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau pan fydd map dros dro yn cael ei ddyroddi ac sy'n dod i ben pan fydd y map terfynol sy'n perthyn iddo yn cael ei ddyroddi neu, os bydd mwy nag un map terfynol yn perthyn i'r map dros dro hwnnw, pan fydd yr olaf o'r mapiau terfynol hynny yn cael ei ddyroddi;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cendlaethol Cymru neu, lle bo swyddogaeth yn cael ei hymarfer gan berson penodedig, y person hwnnw;

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Cefn Gwlad Cymru;

ystyr "datganiad addasiad o fap drafft" ("*draft map modification statement*") yw datganiad ysgrifenedig a baratowyd gan y Cyngor yn unol â rheoliad 7(3)(b) o'r Rheoliadau Mapiau Drafft sy'n nodi addasiadau a wnaed i'r map drafft a'r rhesymau dros eu gwneud;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000;

mae cyfeiriadau at "ddyroddi" ("*issue*") map dros dro neu fap terfynol (fel y bo angen) yn gyfeiriadau at ei ddyroddi gan y Cyngor o dan adran 5(d) neu (e) o'r Ddeddf neu o dan adran 9(1), (2), (3) neu (4) o'r Ddeddf, yn ôl y digwydd;

mae gan "dir agored" ("*open country*") yr ystyr a roddir gan adran 1(2) o'r Ddeddf;

mae gan "dir comin cofrestredig" ("*registered common land*") yr ystyr a roddir gan adran 1(3) o'r Ddeddf;

mae gan "fuddiant" ("*interest*") yr ystyr a roddir gan adran 45(1) o'r Ddeddf;

ystyr "ffurf electronig" ("*electronic form*") yw ffurf y gellir ei storio ar gyfrifiadur, ei throsglwyddo i gyfrifiadur neu oddi wrtho, a'i darllen trwy ddefnyddio cyfrifiadur;

ystyr "ffurflen apêl" ("*appeal form*") yw dogfen sydd yn cynnwys, pan fydd wedi'i chwblhau, yr wybodaeth a ddynodir yn rheoliad 6(4);

mae cyfeiriadau at "gadarnhau" ("*confirmation*") map drafft yn gyfeiriadau at ei gadarnhau yn unol ag adran 5(c) o'r Ddeddf;

ystyr "hysbysiad dyroddi" ("*notice of issue*") map dros dro neu fap terfynol (fel y bo angen) yw hysbysiad sy'n cael ei gyhoeddi yn unol â rheoliad 4(2)(c) neu reoliad 8(2)(ch), yn y drefn honno;

ystyr "map drafft" ("*draft map*") yw map a ddyroddwyd gan y Cyngor o dan adran 5(**3**) o'r Ddeddf;

ystyr "map drafft perthnasol" ("*relevant draft map*"), mewn perthynas â map dros dro, yw map drafft a oedd, pan gafodd ei gadarnhau, yn cynnwys tir sydd bellach wedi ei gynnwys yn y map dros dro hwnnw;

ystyr "map dros dro" ("*provisional map*") yw map sydd wedi'i gadarnhau gan y Cyngor yn unol ag adran 5(c) o'r Ddeddf;

ystyr "map terfynol" ("*conclusive map*") yw map a baratowyd gan y Cyngor at y diben o gael ei ddyroddi yn unol ag adran 9(1), (2), (3) neu (4) o'r Ddeddf;

mae "person" ("*person*") a "phersonau" ("*persons*") yn cynnwys unigolion, corfforaethau a chyrff nad ydynt wedi'u hymgorffori;

(**2**) 1984 p.12.
(**3**) O.S. 2001/4001 (Cy.329)

ystyr "person penodedig" ("*appointed person*") yw person a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 8 o'r Ddeddf;

ystyr "y Rheoliadau Mapiau Drafft" ("*the Draft Map Regulations*") yw Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Drafft) (Cymru) 2001(**3**);

ystyr "tir adran 4(2)" ("*section 4(2) land*") yw'r tir comin cofrestredig a thir agored y mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi mapiau mewn perthynas ag ef yn unol ag adran 4(2) o'r Ddeddf;

ystyr "Ymddiriedolaeth Archaeolegol" ("*Archaeological Trust*") yw Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent neu Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd; ac

ystyr "Ymddiriedolaeth Archaeolegol perthnasol" ("*relevant Archaeological Trust*"), mewn perthynas â map dros dro neu fap terfynol (fel y bo angen), yw Ymddiriedolaeth Archaeolegol y mae ardal ei chyfrifoldeb yn cynnwys ardal sy'n cael ei gynnwys yn y map hwnnw.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn, ac mae unrhyw gyfeiriad mewn rheoliad at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y pargraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheoliad hwnnw.

(3) Wrth gyfrifo unrhyw gyfnod sy'n cael ei ddatgan yn y Rheoliadau hyn yn gyfnod o ddyddiad penodol, nid yw'r dyddiad hwnnw i'w gynnwys ac os yw'r diwrnod neu'r diwrnod olaf y mae'n ofynnol gwneud rhywbeth arno o dan y Rheoliadau hyn, neu'n unol â hwy, yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig, yn ddydd Gwener y Groglith, yn ŵ yl banc neu'n ddiwrnod sydd wedi'i bennu ar gyfer diolchgarwch neu alar cyhoeddus, bernir bod y gofyniad yn ymwneud â'r dydd cyntaf ar ôl hynny nad yw'n un o'r dyddiau uchod.

Ffurf mapiau dros dro

3.—(1) At ddibenion cyflawni ei ddyletswydd i ddyroddi map dros dro o dan adran 5(d) neu (e) o'r Deddf, neu at unrhyw ddiben sy'n gysylltiedig â hynny, gall y Cyngor gynhyrchu a chyhoeddi copïau o'r map dros dro hwnnw ar unrhyw ffurf, gan gynnwys ffurf electronig, y mae'n penderfynu arni a bernir bod unrhyw gopi o'r fath a gyhoeddir gan y Cyngor neu gyda'i awdurdod yn union yr un fath â'r map dros dro oni ddangosir i'r gwrthwyneb.

(2) Gall y Cyngor, er mwyn dangos bodolaeth a maint y tir adran 4(2) a ddangosir ar un neu ragor o fapiau dros dro, ac er mwyn trefnu bod copïau archwilio o'r map dros dro ar gael yn unol â rheoliad 4(2)(a) a (b), neu er mwyn cydymffurfio â chais o'r math y cyfeirir ato yn rheoliad 4(3)(d), gynhyrchu a chyhoeddi copïau o fapiau dros dro sy'n dangos y tir adran 4(2) hwnnw, a gallant fod ar raddfa sy'n llai nag 1:10,000 ond nid yn llai na 1:25,000.

(3) Rhaid i gopïau o fapiau dros dro a gynhyrchir o dan baragraff (1):

(a) ddangos yn glir y dosbarthiadau o dir adran 4(2) a'r nodweddion eraill sy'n cael eu nodi, yn unol â rheoliadau 3(6) a 7(3) o'r Rheoliadau Mapiau Drafft, ar y map dros dro maent yn gopïau ohono, trwy ddefnyddio gwahanol liwiau, cysgodiad, llinellau a symbolau, ond nid oes angen i'r lliwiau (os oes rhai), cysgodiad, llinellau neu symbolau eraill a ddefnyddir i wneud hynny fod yn union yr un fath â'r rhai a ddefnyddir at y diben hwnnw ar y map dros dro hwnnw; a

(b) beidio â chael eu hystyried fel tystiolaeth o gynnwys y mapiau dros dro hynny.

(**3**) O.S. 2001/4001 (Cy.329)

Dyroddi mapiau dros dro

4.—(1) Cymerir bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd yn unol ag adran 5(d) neu (e) o'r Ddeddf (fel y digwydd) i ddyroddi map dros dro pan fydd gyntaf yn cyhoeddi hysbysiad dyroddi'r map dros dro hwnnw yn unol â pharagraff (2)(c) o'r rheoliad hwn.

(2) Nid oes hawl gan y Cyngor gyhoeddi hysbysiad dyroddi map dros dro nes ei fod:

(a) wedi gwneud unrhyw drefniadau sydd o fewn ei bŵ er i sicrhau bod copi o'r map dros dro hwnnw, ac, os cafodd y map drafft y'i seiliwyd arno ei gadarnhau gydag addasiadau, copi o'r datganiad addasiad map drafft, ar ffurf brintiedig ac, os yw'n bosibl, ar ffurf electronig, ar gael i'w archwilio gan aelodau o'r cyhoedd ar bob adeg resymol (yn ddarostyngedig, yn achos archwilio mewn swyddfeydd heblaw swyddfeydd ei hun, i unrhyw ofyniad ar gyfer gwneud apwyntiadau i wneud hynny a fynnir gan yr awdurdod perthasol) drwy gydol y cyfnod apêl:

(i) ym mhencadlys y Cyngor a swyddfa leol y Cyngor, sef y swyddfa agosaf at yr ardal y mae'r map dros dro yn ymwneud â hi heb gynnwys unrhyw swyddfa nad yw'n agored yn ystod oriau swyddfa arferol; a

(ii) ym mhencadlys pob awdurdod lleol perthnasol a phob awdurdod Parc Cenedlaethol perthnasol, os o gwbl;

(b) wedi anfon copi o'r map dros dro hwnnw, ynghyd ag unrhyw ddatganiad addasiad map dros dro sy'n perthyn iddo, naill ai ar ffurf brintiedig ar raddfa nad yw'n llai nag 1:25,000 neu, os yw'r Cyngor a'r sawl sydd i'w dderbyn yn cytuno, ar ffurf electronig, ynghyd â hysbysiad sy'n cynnwys yr union wybodaeth â'r hyn y mae'n ofynnol ei chynnwys yn hysbysiad dyroddi'r map dros dro hwnnw, i bob un o'r cyrff a bennir yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn ac i unrhyw bersonau eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol;

(c) wedi cyhoeddi'r hysbysiad dyroddi'r map dros dro hwnnw mewn o leiaf un papur newydd dyddiol sy'n cylchredeg drwy'r rhan gyfan honno o Gymru sy'n cynnwys yr ardal y mae'r map dros dro hwnnw yn ymwneud â hi ac unrhyw bapurau newydd neu gyhoeddiadau eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol;

(ch) wedi anfon copi o hysbysiad dyroddi'r map dros dro hwnnw i bob un o'r llyfrgelloedd cyhoeddus a restrir yn Atodlen 2, gyda chais iddo gael ei arddangos i'r cyhoedd yn y llyfrgell honno;

(d) wedi anfon at y Cynulliad Cenedlaethol gopi o hysbysiad dyroddi'r map dros dro hwnnw ac wedi hysbysu'r Cynulliad Cendlaethol pryd ac ym mha bapur newydd y mae'n bwriadu cyhoeddi'r hysbysiad.

(3) Rhaid i hysbysiad dyroddi map dros dro:

(a) nodi'r ardal y mae'r map dros dro yn ymwneud â hi;

(b) datgan a gafodd y map drafft y mae'r map dros dro yn perthyn iddo ei gadarnhau gydag addasiadau ai peidio;

(c) datgan mai effaith y map dros dro, yn ddarostyngedig i unrhyw addasiadau a wneir o ganlyniad i apeliadau sy'n ymwneud ag ef, yw dangos y darnau o dir adran 4(2) y bydd gan y cyhoedd y gallu i ymarfer yr hawl mynediad o dan adran 2 o'r Ddeddf, pan ddaw'r adran honno i rym, mewn perthynas â hwy, yn ddarostyngedig i'r eithriadau a'r cyfyngiadau y mae'r Ddeddf yn darparu ar eu cyfer;

(ch) datgan y gall unrhyw berson y mae ganddo fuddiant mewn unrhyw dir a ddangosir ar y map hwnnw fel tir comin cofrestredig neu fel tir agored, cyn diwedd cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, sef cyfnod yn gorffen heb fod yn llai na thri mis ar ôl y dyddiad y cyhoeddwyd yn gyntaf hysbysiad dyroddi'r map dros dro hwnnw yn unol â pharagraff 2(c), apelio at y Cynulliad Cenedlaethol yn erbyn dangos y tir hwnnw ar y map fel tir comin cofrestredig

neu dir agored, trwy anfon neu fynd â ffurflen apêl at y Cynulliad Cenedlaethol fel y bydd yn cael ei dderbyn gan y Cynulliad Cenedlaethol o fewn y cyfnod hwnnw;

(d) rhoi manylion o sut y gall person sy'n dymuno dod ag apêl felly gael hyd i ffurflen apêl;

(dd) datgan cyfeiriad y Cynulliad Cenedlaethol y dylid anfon neu fynd â ffurflen apêl iddo;

(e) rhoi manylion o sut y gall aelodau o'r cyhoedd archwilio'r map dros dro a'r datganiad addasiad map drafft, os cadarnhawyd y map draff y mae'r map dros dro yn perthyn iddo gydag addasiadau;

(f) datgan y gall unrhyw berson y mae ganddo fuddiant mewn unrhyw dir a ddangosir ar y map dros dro hwnnw fel tir adran 4(2), drwy gais ysgrifenedig i'r Cyngor sy'n nodi natur y buddiant hwnnw a'r tir y mae'n ymwneud ag ef, ac sy'n dod i law'r Cyngor cyn diwedd y cyfnod apêl, ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor ddarparu i'r person hwnnw, yn rhad ac am ddim, un copi o'r map dros dro neu o ddarn o'r map dros dro sy'n dangos y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef ac, os cafodd y rhan o'r map dros dro sy'n dangos y tir y mae'r cais yn ymwneud ag ef ei gadarnhau gydag addasiadau, gopi o'r datganiad addasiad map drafft neu o'r rhan ohono sy'n ymwneud â'r cais, a bod raid i'r copi neu'r copïau hynny fod ar ffurf brintiedig neu, os yw'r Cyngor a'r person hwnnw yn cytuno, ar ffurf electronig;

(ff) datgan y cyfeiriad y dylid anfon unrhyw gais o dan is-baragraff (f) ato.

(4) Gall unrhyw hysbysiad sy'n cael ei gyhoeddi yn unol â pharagraff 2(c) neu sy'n cael ei anfon yn unol â pharagraff (2)(ch), yn ychwanegol at unrhyw wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys o dan baragraff (3), gynnwys unrhyw wybodaeth bellach y gŵ el y Cyngor yn dda.

Dyletswydd gyffredinol i roi gwybod i'r cyhoedd am ddarpariaethau mapiau dros dro

5.—(1) Rhaid i'r Cyngor ystyried unrhyw gamau sy'n rhesymol er mwyn rhoi gwybod i'r cyhoedd am ddarpariaethau mapiau dros dro a rhoi'r camau hynny ar waith a rhaid iddo ystyried yn benodol a yw'n ddymunol:

(a) rhoi ar gael yn ystod y cyfnod dros dro, cyhyd â'i bod yn ymarferol, wybodaeth a fydd yn cael ei chyhoeddi ar unrhyw wefan y mae'n ei chynnal ar y rhyngrwyd sydd:

(i) yn cyfateb i'r hyn sy'n cael ei ddangos ar fapiau dros dro, ond yn cael ei arddangos trwy gyfrwng mapiau ar raddfa llai; a

(ii) yn cynnwys yr hyn sy'n cael ei gynnwys mewn unrhyw ddatganiadau addasiad map drafft sy'n ymwneud â hwy; a

(b) tynnu sylw'r rhai y mae'n ymddangos bod ganddynt fuddiant mewn tir a ddangosir fel tir adran 4(2) ar fap dros dro, drwy ba ddull bynnag sy'n briodol, y ffaith bod y map hwnnw wedi'i ddyroddi ac ym mhle y gellir ei archwilio.

(2) Ni fydd y ddyletswydd sy'n cael ei gosod o dan baragraff (1) yn rhagfarnu dyletswyddau'r Cyngor o dan reoliad 4 ond ni fydd unrhyw fethiant ar ran y Cyngor i gyflawni'r ddyletswydd sy'n cael ei gosod gan baragraff (1) mewn perthynas â map dros dro yn annilysu dyroddi'r map dros dro hwnnw gan y Cyngor neu unrhyw gamau eraill y mae'n ofynnol i'r Cyngor neu'r Cynulliad Cenedlaethol eu cymryd o dan y Rheoliadau hyn.

Apeliadau gan bersonau y mae ganddynt fuddiant mewn tir sy'n cael ei gynnwys ar fap dros dro

6.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (3), ni all apêl gael ei gychwyn ond trwy anfon neu fynd â ffurflen apêl sydd wedi'i chwblhau at y Cynulliad Cenedlaethol fel ei bod yn dod i law cyn diwedd y cyfnod apêl.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) gall apêl hefyd gael ei gychwyn trwy anfon neu fynd â ffurflen apêl wedi'i chwblhau fel ei bod yn dod i law ar ôl diwedd y cyfnod apêl os yw'r Cynulliad